| Policy Arrangement | | |
|---|---|---|
| **Reference ID** | **Version Number** | **Dated** |
| CE001P | 1.3 | Mawrth 2024 |

POLISI GRŴP TAI WALES & WEST

**POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN**

| MANYLION RHEOLI DOGFEN | |
|---|---|
| **Perchennog y Polisi** | *Bwrdd TWW* |
| **Dyddiad Llunio'r Polisi** | |
| **Cymeradwywr** | Bwrdd Grŵp TWW |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf** | Mawrth 2027 |
| **Adolygwr** | *Rheolwr Llywodraethu* |
| **Dyddiad Diweddaru Diwethaf** | Mawrth 2026 |
| | |

**1.1 Cyflwyniad a Diben**

Chwythu'r chwiban yw'r term cyffredin a ddefnyddir i ddisgrifio'r sefyllfa lle y bydd aelod o staff, aelod o'r Bwrdd neu breswylydd, contractwr neu gyflenwr yn mynegi pryderon am ymddygiad amhriodol, camymddwyn, risg neu gamwedd i rywun mewn awdurdod, naill ai'n fewnol neu'n allanol.

Gallai honiad chwythu'r chwiban gael ei alw'n ddatgeliad gwarchodedig dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1988 (PIDA).

Diben y polisi hwn yw:

- Annog staff, Aelodau'r Bwrdd neu unrhyw un arall i adrodd am gamymddwyn a ddrwgdybir cyn gynted ag y bo modd, gan wybod yr ystyrir eu pryderon o ddifrif ac y byddant yn destun ymchwiliad priodol, ac y parchir eu cyfrinachedd.
- Cynnig arweiniad ynghylch sut i fynegi'r pryderon hynny.
- Cynnig tawelwch meddwl i'r rhai sy'n adrodd y dylent fod yn gallu mynegi pryderon dilys heb ofni cosb, hyd yn oed os darganfyddir eu bod yn anghywir.

**1.2 Datganiad Polisi:**

**Mae chwythu'r chwiban yng nghyd-destun y polisi hwn a'r ddeddfwriaeth yn golygu datgelu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chamymddwyn a ddrwgdybir neu beryglon yn y gwaith sydd er budd y cyhoedd ym marn resymol y sawl sy'n chwythu'r chwiban.** Gallai hyn gynnwys:

- Camwedd, amhriodoldeb neu dwyll ariannol;

- Methu cydymffurfio gyda rhwymedigaeth gyfreithiol neu statudau;
- Peryglon i iechyd a diogelwch neu'r amgylchedd;
- Gweithgarwch troseddol;
- Camweinyddiad cyfiawnder;
- Camwedd proffesiynol;
- Ymddygiad amhriodol neu ymddygiad anfoesegol;
- Arferion cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesegol;
- Methiannau arwyddocaol mewn perthynas, gan gynnwys y rhai rhwng y Bwrdd, y staff a'r tîm rheoli;
- Ymdrechion i gelu unrhyw rai o'r uchod.

Defnyddir y term 'chwythwr chwiban' i ddisgrifio rhywun sy'n dod yn ymwybodol o (neu sy'n drwgdybio) camwedd difrifol mewn sefydliad ac sy'n codi'r mater fel bod modd ymchwilio iddo ac yn ôl yr angen, ei gywiro.

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein busnes mewn ffordd gyfrifol, gan gynnal pwysigrwydd gwerthoedd ac egwyddorion gweithredol Grŵp TWW, ac rydym yn disgwyl i'r holl staff gynnal safonau uchel yn unol â'n Côd Ymddygiad. Mae TWW yn annog diwylliant o weithredu agored ac atebolrwydd, sy'n hanfodol er mwyn atal sefyllfaoedd o'r fath rhag codi neu o roi sylw iddynt pan fyddant yn codi.

Gall problemau godi mewn unrhyw sefydliad ac yn aml, y bobl orau i'w canfod yw'r bobl sy'n gweithio i'r sefydliad a gydag ef. Mae'r holl staff a'r Aelodau Bwrdd yn gyfrifol am lwyddiant y polisi hwn ac mae'n rhaid iddynt sicrhau eu bod yn ei ddefnyddio i ddatgelu unrhyw berygl neu gamymddwyn a ddrwgdybir os a phryd y byddant yn dod yn ymwybodol ohono.

**1.3 Dogfennau a Deddfwriaeth Gysylltiedig:**

Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (PIDA)

Mae gan chwythwyr chwiban sy'n gwneud datgeliad gwarchodedig hawl i beidio dioddef unrhyw niwed gan y sefydliad y maent yn gweithio gydag ef. Os byddant yn cael eu trin mewn ffordd lai ffafriol am wneud datgeliad, gellir dwyn hawliad i'r Tribiwnlys Cyflogaeth os byddant yn dioddef colled o ganlyniad. Y Tribiwnlys Cyflogaeth fydd yn penderfynu a fydd unrhyw hawliad yn ddatgeliad gwarchodedig.

Ni chaiff datgeliadau sy'n faleisus neu y mae'n hysbys eu bod yn anwir eu diogelu dan PIDA. I fod yn gymwys i gael ei ddiogelu, rhaid i ddatgeliad gael ei wneud er budd y cyhoedd.

## 2.0 Prif Gorff

### 2.1 Mynegi pryder chwythu'r chwiban

Ar ryw adeg, efallai y byddwch yn pryderu am faterion y byddwch yn eu gweld neu'n eu clywed yn y gwaith neu mewn perthynas â gwaith GTWW. Mewn nifer o achosion, mawr obeithiwn y byddwch yn gallu mynegi unrhyw bryderon ac y dylai fod yn hawdd eu datrys gyda'r cymorth a'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol sydd mewn grym yn TWW. Gall y penderfyniad i adrodd am bryder fod yn un anodd i'w wneud, yn enwedig os bydd yn cynnwys cydweithwyr, rheolwyr neu ddeiliaid

contract. Os yw'r hyn yr ydych yn ei ddweud yn wir, fodd bynnag, rydym yn dymuno i chi wneud y penderfyniad iawn a chodi eich llais.

I staff, wrth adrodd am eich pryder, gallwch ddweud wrth eich rheolwr llinell wyneb yn wyneb neu nodi eich pryder yn ysgrifenedig os byddai'n well gennych chi wneud hynny. Efallai y byddant yn gallu cytuno ar ffordd o ddatrys eich pryder yn gyflym ac mewn ffordd effeithiol. Mewn rhai achosion, efallai y byddant yn cyfeirio'r mater at unigolyn mwy addas.

Pan fo'r mater yn un mwy difrifol, fodd bynnag, neu pan fyddwch yn teimlo nad yw eich rheolwr llinell neu'r unigolyn yr adroddoch am y mater iddynt wedi rhoi sylw i'ch pryder, neu byddai'n well gennych chi beidio ei godi gyda nhw am unrhyw reswm, dylech gysylltu â Phrif Weithredwr Grŵp TWW.

Os yw eich pryder yn ymwneud â Phrif Weithredwr Grŵp TWW, dylech gysylltu â Chadeirydd Bwrdd TWW.

I Aelodau Bwrdd, gallwch adrodd eich pryder wyneb yn wyneb neu yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Bwrdd; gallwch fynegi pryderon gyda'r Rheoleiddiwr hefyd. Os bydd eich pryderon yn ymwneud â Chadeirydd y Bwrdd, dylech gysylltu ag Ysgrifennydd y Cwmni.

I gontractwyr ac aelodau'r cyhoedd, gallwch adrodd eich pryder wyneb yn wyneb neu yn ysgrifenedig i Brif Weithredwr Grŵp TWW. Os yw eich pryderon yn ymwneud â Phrif Weithredwr y Grŵp, dylech gysylltu â Chadeirydd y Bwrdd.

Gallwch fynegi pryderon gyda'n Rheoleiddiwr hefyd, sef Llywodraeth Cymru.

Nodir yr holl fanylion cyswllt ar ddiwedd y polisi hwn.

### 2.2 Ymchwiliadau a chanlyniad

Os yw hynny'n berthnasol, byddwn yn trefnu cyfarfod gyda chi cyn gynted ag y bo modd i drafod eich pryder. Gallwch ddod â chydweithiwr, cynrychiolydd undeb neu gydnabod gyda chi i unrhyw gyfarfodydd dan y polisi hwn, a bydd yn rhaid i'ch cydymaith barchu cyfrinachedd eich datgeliad ac unrhyw ymchwiliad dilynol.

Mae'n debygol y byddwn yn cofnodi crynodeb ysgrifenedig o'ch pryder a byddai copi ar gael i chi ar ôl y cyfarfod. Yn ogystal, byddwn yn ceisio rhoi syniad i chi o'r ffordd yr ydym yn bwriadu delio â'r mater.

Ar ôl i chi fynegi pryder, byddwn yn cynnal asesiad cychwynnol i bennu cwmpas unrhyw ymchwiliad. Byddwn yn eich hysbysu o ganlyniad ein hasesiad. Efallai y bydd gofyn i chi fynychu cyfarfodydd ychwanegol er mwyn darparu gwybodaeth bellach.

Mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn penodi ymchwilydd neu dîm o ymchwilwyr gan gynnwys staff sy'n meddu ar brofiad perthnasol o ymchwiliadau neu sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol am y mater. Gall yr ymchwilydd(ymchwilwyr) wneud argymhellion ynghylch newidiadau i'w gwneud er mwyn ein galluogi i leihau'r risg y bydd camymddwyn yn y dyfodol gymaint ag y bo modd.

Ein nod fydd rhoi gwybod i chi am gynnydd yr ymchwiliad a'i amserlen debygol. Weithiau, bydd yr angen i sicrhau cyfrinachedd yn ein hatal rhag rhoi manylion penodol am yr ymchwiliad i chi, neu unrhyw gamau disgyblu a gymrwyd o ganlyniad. Dylech wastad drin unrhyw wybodaeth am yr ymchwiliad fel gwybodaeth gyfrinachol.

Os byddwn yn dod i'r casgliad bod chwythwr chwiban wedi gwneud honiadau anwir mewn ffordd faleisus, anonest neu er mwyn sicrhau budd personol, bydd y chwythwr chwiban yn destun camau disgyblu/cyfreithiol yn unol â'r hyn a fydd yn briodol.

### 2.3 Cyfrinachedd

Mawr obeithiwn y bydd unigolion yn teimlo'u bod yn gallu lleisio pryderon chwythu'r chwiban mewn ffordd agored dan y polisi hwn. Os hoffech fynegi eich pryder mewn ffordd gyfrinachol, fodd bynnag, byddwn yn gwneud ein gorau i gadw eich manylion personol yn gyfrinachol. Os bydd angen i unrhyw un sy'n ymchwilio i'ch pryder gael gwybod pwy ydych chi, byddwn yn trafod hyn gyda chi.

Er ein bod yn ystyried pob pryder o ddifrif, nid ydym yn annog pobl i wneud datgeliadau mewn ffordd ddienw. Wrth benderfynu a ddylid symud honiad dienw yn ei flaen dan y polisi a'r canllawiau, byddwn yn ystyried:

- Difrifoldeb y mater a godwyd;
- Hygrededd y pryder;
- Y tebygolrwydd o gadarnhau'r honiad gan ffynhonnell briodoladwy a sicrhau gwybodaeth ganddynt.

Dylai chwythwyr chwiban sy'n pryderu am gamau posibl i ddial arnynt os bydd eu manylion personol yn hysbys, drafod hyn gyda'r unigolyn sy'n arwain yr ymchwiliad neu Brif Weithredwr y Grŵp, yna bydd modd cymryd mesurau priodol i leihau unrhyw risg gymaint ag y bo modd.

### 2.4 Os byddwch yn anfodlon

Er na allwn addo'r canlyniad yr ydych yn ei ddymuno, byddwn wastad yn ceisio delio gyda'r pryder mewn ffordd deg a phriodol. Trwy ddefnyddio'r polisi hwn, gallwch ein helpu i gyflawni hyn.

Os na fyddwch yn fodlon â'r ffordd y deliwyd â'ch pryder, gallwch ei godi gyda Phrif Weithredwr y Grŵp. Os bydd eich pryder yn ymwneud â Phrif Weithredwr y Grŵp, dylech gysylltu â Chadeirydd Bwrdd TWW. Nodir manylion cyswllt ar ddiwedd y polisi hwn.

### 2.5 Datgeliadau allanol

Gan fod y polisi hwn yn ceisio darparu mecanwaith er mwyn adrodd am, ymchwilio i ac unioni unrhyw gamymddwyn yn y gweithle, y gobaith yw na fydd angen i chi hysbysu unrhyw un allanol.

Mae'r gyfraith yn cydnabod y bydd hi'n briodol i chi adrodd eich pryderon i gorff allanol fel ein Rheoleiddiwr mewn rhai amgylchiadau. Rydym yn eich annog, pan fo modd, i geisio cyngor mewnol

cyn adrodd am bryder i unrhyw un allanol oherwydd y gallai hyn fod yn rhan o unrhyw broses ymchwilio. Anaml iawn, os o gwbl, y bydd hi'n briodol i chi hysbysu'r cyfryngau.

Fel arfer, mae pryderon chwythu'r chwiban yn ymwneud ag ymddygiad ein staff, ond weithiau, efallai y byddant yn ymwneud â gweithredoedd trydydd parti, megis cwsmer, cyflenwr neu ddarparwr gwasanaeth neu aelod o'r cyhoedd. Mae'r gyfraith yn caniatáu i chi fynegi pryder gyda thrydydd parti yn uniongyrchol, pan fyddwch yn credu yn rhesymol ei fod yn ymwneud â'u gweithredoedd yn bennaf neu rywbeth y maent yn gyfrifol amdano yn ôl y gyfraith. Fe'ch anogwn, fodd bynnag, i adrodd pryderon o'r fath i GTWW yn gyntaf, er mwyn i ni allu cynorthwyo datgeliadau o'r fath. Dylech gysylltu â'ch rheolwr llinell, os yw hynny'n briodol, neu un o'r unigolion eraill a nodir uchod am arweiniad.

### 2.6 Diogelwch a chymorth i chwythwyr chwiban

Mae'n ddealladwy bod chwythwyr chwiban weithiau yn pryderu am ôl-effeithiau posibl. Ein nod yw annog gweithredu agored a byddwn yn cynorthwyo unrhyw un sy'n mynegi pryderon go iawn dan y polisi hwn, hyd yn oed os canfyddir eu bod yn anghywir yn y pen draw.

Ni ddylai unrhyw un sy'n defnyddio'r polisi hwn ddioddef unrhyw driniaeth niweidiol o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi mynegi pryder. Mae triniaeth niweidiol yn cynnwys diswyddo, camau disgyblu, colli gwaith, bygythiadau neu driniaeth anffafriol arall sy'n gysylltiedig â mynegi pryder. Os byddwch yn credu eich bod wedi dioddef unrhyw driniaeth o'r fath, dylech hysbysu un o'r cysylltiadau priodol dan y polisi hwn ar unwaith. Os na chaiff y mater ei ddatrys, dylech ei godi mewn ffordd ffurfiol trwy ddefnyddio ein **Polisi Datrys Anghydfodau** neu fynegi'r pryder i Brif Weithredwr y Grŵp neu Gadeirydd y Bwrdd.

Os mai'r casgliad a wneir, fodd bynnag, yw bod y pryder wedi cael ei godi mewn ffordd faleisus, anonest neu gyda'r bwriad o sicrhau budd personol, gallech fod yn destun camau disgyblu neu golli eich contract gyda ni.

Ni ddylai staff, Aelodau Bwrdd na thrydydd partïon fygwth na dial ar chwythwyr chwiban mewn unrhyw ffordd. Ni fydd TWW yn goddef sefyllfaoedd lle y bydd unrhyw un sy'n mynegi pryder go iawn yn destun aflonyddu neu erledigaeth. Bydd unrhyw un sy'n gysylltiedig ag ymddygiad o'r fath yn destun camau disgyblu/cyfreithiol pan fo hynny'n briodol.

Os ydych chi'n teimlo eich bod yn dymuno siarad gyda rhywun y tu allan i'r sefydliad efallai, gallwch geisio cyngor ‘Protect’, sef yr elusen annibynnol ynghylch chwythu'r chwiban, sy'n cynnig llinell gymorth gyfrinachol. Nodir eu manylion cyswllt ar ddiwedd y polisi hwn.

### 2.7 Cysylltiadau

| | |
|---|---|
| **Prif Weithredwr Grŵp TWW** | Anne Hinchey<br>E-bost: Anne.Hinchey@wwha.co.uk |
| **Cadeirydd Bwrdd TWW** | Peter Harding<br>E-bost: Peter.Harding@wwha.co.uk |
| **Ysgrifennydd y Cwmni** | Leynie Pearn<br>E-bost: Leynie.Pearn@wwha.co.uk |
| **Diogelu** (Elusen chwythu'r chwiban annibynnol) | Llinell gymorth: 020 3117 2520<br>E-bost:business@protect-advice.org.uk<br>Gwefan: https://protect-advice.org.uk/ |
| **Llywodraeth Cymru (ein Rheoleiddiwr)** | E-bost: housingregulation@gov.wales |